Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tyrchu'r Tir – Gwella Iechyd Pridd Cymru

## Ymateb i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Ar 18 Tachwedd 2025, cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ei adroddiad Tyrchu'r Tir - Gwella Iechyd Pridd Cymru a diolchaf i'r pwyllgor am gynnal yr ymchwiliad hwn.

Mae'r adroddiad yn cynnwys 7 argymhelliad a 6 chasgliad, a dyma ymateb Llywodraeth Cymru.

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 3**

**2. Ymateb i'r 7 Argymhelliad a 6 Chasgliad ........ 4**

Penod 3: Monitro Pridd ........ 4

Casgliad 1 ........ 4

Argymhelliad 1 ........ 4

Penod 4: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ........ 5

Argymhelliad 2 ........ 5

Casgliad 2 ........ 5

Casgliad 3 ........ 6

Penod 5: Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ........ 7

Argymhelliad 3 ........ 7

Argymhelliad 4 ........ 7

Casgliad 4 ........ 9

Penod 6: Rheoleiddio ........ 9

Argymhelliad 5 y Pwyllgor ........ 9

Casgliad 5 ........ 10

Penod 7: Targedau ........ 11

Argymhelliad 6 ........ 11

Penod 8: Buddsoddiad Preifat a'r Farchnad Credyd Carbon Pridd ........ 12

Argymhelliad 7 ........ 12

Casgliad 6 ........ 12

# 1. Cyflwyniad

Diolchaf i aelodau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am gyflwyno ei adroddiad Tyrchu'r Tir – Gwella Iechyd Pridd Cymru. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion a chasgliadau unigol yr Adroddiad isod. Mae'r ymatebion wedi'u grwpio i gyd-fynd â phenodau perthnasol yr Adroddiad.

# 2. Ymateb i'r 7 Argymhelliad a 6 Chasgliad

## Pennod 3: Monitro Pridd

### Casgliad 1

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Cymru ar flaen y gad ym maes profi pridd. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod y sefyllfa yma yn parhau. Er mwyn gwneud hyn, dylai archwilio arferion gorau ynghylch rhannu gwybodaeth o Gynllun Iechyd Maethynnau Pridd Gogledd Iwerddon ac edrych ar sut y gellir ehangu'r data a gesglir i gynnwys cynyddu dyfnder samplau pridd a gymerwyd fel rhan o Raglen Monitro a Modelu Materion Gwledig (ERAMMP) a'r Amgylchedd a gwella monitro bioamrywiaeth y pridd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o fonitro i sicrhau bod gweithgarwch monitro yn y dyfodol yn bodloni gofynion y Ddeddf Amaethyddiaeth. Bydd yr adolygiad yn ystyried y dulliau monitro pridd gan gynnwys dyfnder a bioamrywiaeth y pridd. Cymru yw'r unig genedl yn y DU sydd wedi'i mapio ei holl gymunedau bioamrywiaeth y pridd gan ddefnyddio technoleg eDNA.

Goblygiadau Ariannol: bydd yr adolygiad yn cael ei ddarparu o fewn cyllidebau presennol gan gynnwys asesiad o'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â monitro pridd dwfn a monitro bioamrywiaeth y pridd.

### Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Mae profi pridd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfle gwych i gynyddu ein dealltwriaeth o bridd. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn rhannu data iechyd pridd o'r profion hynny ac unrhyw brofion y mae'n eu comisiynu gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill yn y ffordd fwyaf hygyrch iddynt wella eu rheolaeth leol o iechyd pridd. Dylent hefyd edrych ar sut y gellir rhannu data o brofion a gynhelir fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gydag arbenigwyr i gynyddu dealltwriaeth o iechyd ein pridd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol - gan barchu preifatrwydd a chyfrinachedd masnachol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd canlyniadau Gweithred Gyffredinol (UA) 1 yr SFS ar Iechyd Pridd yn cael eu rhannu gyda chontractwr ERAMMP i gefnogi ein rhaglen fonitro genedlaethol,

bydd hyn yn cynyddu'r ddealltwriaeth o iechyd pridd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd y canlyniadau'n cael eu crynhoi a bydd data ERAMMP yn cael eu cyhoeddi yn unol â rheolau preifatrwydd data. Nod y monitro a gynhelir gan Arolwg Maes Cenedlaethol ERAMMP yw olrhain tueddiadau yng nghyflwr a maint adnoddau naturiol ac nid cynorthwyo ffermwyr a rheolwyr tir i reoli iechyd pridd yn lleol; ymdrinnir â throsglwyddo gwybodaeth yn yr ymateb i Gasgliad 2.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn yr adnoddau a chyllidebau presennol Llywodraeth Cymru.

## Pennod 4: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

### Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn annog ac yn cefnogi ffermwyr tenant yn llawn i wella'r pridd maen nhw'n ei ffermio. Gallai hyn gynnwys cymorth ariannol a'u cefnogi i gael ardystiadau a fydd yn cynyddu gwerth eu cynhyrchion.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae ein sector ffermwyr tenant amrywiol a phwysig wedi bod yn ganolog i ddylunio'r Cynllun drwy gydol y broses. Er enghraifft, diwygiwyd cynigion cynharach y dylai'r SFS redeg fel contract pum mlynedd gan y byddai hyn yn anhygyrch i lawer o denantiaid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio drwy fanylion pob Gweithred Gyffredinol (gan gynnwys profion pridd UA 1) gyda grŵp rhanddeiliaid yr SFS a Bord Gron y Gweinidogion, i nodi a datrys unrhyw heriau unigryw i ffermwyr tenant sy'n mynd i fod yn rhan o'r SFS. Mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn aelodau gweithredol o'r ddau grŵp hyn.

Bydd datblygu camau dewisol sy'n gysylltiedig â phridd yn y dyfodol yn ystyried ffermwyr tenant. Ar gyfer 2026/27, bydd camau gweithredu cymorth organig ar gael i ffermwyr cymwys pu'n a ydynt yn rhan o'r SFS ai peidio.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn adnoddau a chyllidebau presennol Llywodraeth Cymru.

### Casgliad 2

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

Rydym yn croesawu gofynion profi pridd yr SFS, fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu gweithredu drwy gyllid, neu gyngor ac arweiniad ar sut y gall ffermwyr wella eu tir, neu gyfuniad o'r ddau.

Ymateb: Derbyn

Er na fydd cost y profion pridd eu hunain yn cael eu talu gan Cyswllt Ffermio o 1 Ebrill 2026 ar gyfer y rhai sy'n rhan o'r SFS (er mwyn osgoi talu ddwywaith), mae gan ffermwyr fynediad at gymorth a chyngor â chymhorthdal gan Cyswllt Ffermio o hyd i ddehongli unrhyw ganlyniadau profion pridd. Darperir y cyngor hwn er mwyn cefnogi ffermwyr nid yn unig i brofi pridd, ond i gymryd camau gwybodus yn seiliedig ar ganlyniadau'r profion hynny.

Bydd y gefnogaeth yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, ganllawiau ar ddewis y systemau gorau posibl ar gyfer tyfu a chylchdroi cnydau gan gynnwys argymhellion ar ddulliau sefydlu; cyngor ar strategaethau pori, rheoli cadwraeth, a defnydd effeithiol o borthiant; arferion gorau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a defnyddio plaladdwyr; codi ymwybyddiaeth o werth a bregusrwydd pridd; a chyngor ar storio a defnyddio tail, gan gynnwys amseru a chynllunio i fodloni gofynion rheoleiddio, yn ogystal â chymorth i ddatblygu cynlluniau rheoli maetholion sy'n ystyried ffactorau amgylcheddol ac agronomeg.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Casgliad 3

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

Dylai'r Llywodraeth nesaf archwilio awgrymiadau'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur ar gyfer gwella iechyd y pridd ac ystyried sut y gellid eu hymgorffori i'r SFS yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae llawer o awgrymiadau'r Rhwydwaith Ffermio sy'n Gyfeillgar i Natur (NFFN) yn rhan o'r cynnig SFS cychwynnol yn barod. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu sut y bydd iechyd pridd yn cael ei wella dan yr SFS yn y dyfodol fel rhan o Raglen Datblygu Cam 2 yr SFS. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r NFFN a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r cynnig hwn.

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Pennod 5: Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas

### Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith i gefnogi swyddogion cynllunio sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau i ddefnyddio tir amaethyddol. Dylid datblygu'r fframwaith hwn gyda'r nod o gadw'r tir gorau ar gyfer defnydd amaethyddol, gosod blaenoriaethau rhwng defnyddiau a'i baratoi ar gyfer y dyfodol o safbwynt newid hinsawdd.

Ymateb: Gwrthod

Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol yn darparu'r fframwaith cynllunio defnydd tir wrth ystyried defnyddio tir amaethyddol. Mae'r cydbwysedd rhwng y darpariaethau diogelu a roddir i'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMVAL) a'i ddefnydd at ddibenion anamaethyddol yn gyffredinol gywir ac mae'n rhaid ei asesu fesul achos.

Mae paragraffau 42 i 48 yn cyfuno dosbarthiad BMVAL a dosbarthiadau cynefinoedd eang ERAMMP; nid ydynt yr un peth ac rwy'n cyfeirio'r Pwyllgor at dystiolaeth o'r Gwrandawiad llafar ym mharagraffau 362 a 363. Mae ERAMMP yn seiliedig ar ddefnydd tir yn hytrach na gallu. Nid yw'n adlewyrchu sut y gall y tir dyfu ystod eang o gnydau yn gyson; nid yw ychwaith yn adlewyrchu ystyriaethau amgylcheddol o ran llethr, math o bridd a mandylledd sy'n dylanwadu ar erydiad, adfer cnydau, ymarferoldeb a threiddiad.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

### Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu data a mapiau ALC i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas at y diben.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn deall yr angen i gynnal hygrededd y system Dosbarthiad Tir Amaethyddol i ddiogelu tir amaethyddol o ansawdd uchel yn y system gynllunio. Mae wedi rhoi cyfres o fesurau ar waith i sicrhau bod y system yn parhau i fod yn gyfredol. Yn ogystal â'm tystiolaeth ym mharagraffau 365, 378 a 379 o drawsgrifiad y Gwrandawiad, gobeithiaf y bydd y camau canlynol yn dangos i'r Pwyllgor sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Roedd hen Fapiau Dros Dro y Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar raddfa 1:250,000 ac yn seiliedig ar hen fersiwn o'r meini prawf asesu Dosbarthiad Tir Amaethyddol sy'n dyddio o'r 1960au; rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r rhain yng Nghymru yn 2017.

Diweddarodd Llywodraeth Cymru fap y Dosbarthiad Tir Amaethyddol am y tro cyntaf yn 2017 ac eto yn 2019 - Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol 2 | MapDataCymru. Mae DEFRA yn dilyn y dull a'r fethodoleg a ddefnyddir yng Nghymru i ddiweddaru eu mapiau, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth technegol i'r prosiect.

Mae'r Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn seiliedig ar feini prawf graddio Dosbarthiad Tir Cyffredinol cyfredol ar ddull grid 50m sy'n addas ar gyfer pob graddfa.

Rhagweld yn hytrach na chynnig diffiniad pendant o ddosbarthiad tir amaethyddol yn unig a wna'r Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Bydd wastad angen arolwg oherwydd bod priodweddau pridd yn amrywio'n sylweddol dros bellteroedd byr, sy'n effeithio ar y radd derfynol. Mae angen tystiolaeth gadarn yn hytrach na thystiolaeth ragfynegol, i lywio penderfyniadau cynllunio.

Nid oes unrhyw arwydd nad yw'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn addas o dan yr amodau hinsoddol a systemau cnydio presennol. Mae hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau prosiect ymchwil DEFRA SP1104 a phrosiect ymchwil Llywodraeth Cymru CSCP06.

Comisiynwyd y gyfres ganlynol o adroddiadau Adolygiad Technegol o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol gan Lywodraeth Cymru ar ran Cymru a Lloegr i adolygu'r meini prawf graddio technegol a darparu templed ar gyfer diweddariad technegol llawn ac adnoddau digidol:

Dosbarthiad Tir Amaethyddol: Adolygiad Technegol - Rhan 1 llethr, natur garegog, dyfnder pridd a dosbarthiad maint gronynnau.

Dosbarthiad Tir Amaethyddol: Adolygiad Technegol - Rhan 2 agwedd, rhew, gwynt, micro-dirwedd, llifogydd, dyfrhau ac erydiad pridd.

Dosbarthiad Tir Amaethyddol: Adolygiad Technegol - Rhan 3 hinsawdd, sychder, digwyddiadau episodig, anweddu a gallu / addasrwydd tir.

Dosbarthiad Tir Amaethyddol: Adolygiad Technegol - Rhan 4graddio tir amaethyddol gyda chrynodiadau elfen a allai fod yn wenwynig (PTE)

Dosbarthiad Tir Amaethyddol: Adolygiad Technegol - Rhan 5 argymhellion adolygiad technegol llawn.

O dan brosiect RDE745, comisiynodd DEFRA a Llywodraeth Cymru y diweddariad technegol llawn o'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol gyda'r gyfres adolygiadau technegol yn sail i'r fanyleb. Dechreuodd y prosiect ym mis Awst a chaiff ei gwblhau yn 2027. Fel rhan o'r prosiect hwn, bydd y Mapiau Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael eu diweddaru.

Goblygiadau Ariannol - caiff y gwaith hwn ei gyflawni o fewn adnoddau a chyllidebau presennol Llywodraeth Cymru a DEFRA.

## Casgliad 4

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â DEFRA a dilyn datblygiad a gweithrediad eu Fframwaith Defnydd Tir.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw llygad agos ar ar ddatblygiad y Fframwaith Defnydd Tir gan DEFRA ac mae bob amser yn chwilio am arfer da y gall ddysgu ohono.

Ar hyn o bryd mae Cymru'r Dyfodol, y Cynllun Cenedlaethol, yn mynd trwy ei gyfnod monitro statudol 5. Mae'n cynnig fframwaith ar gyfer llywio datblygiad yng Nghymru dros y ddau ddegawd nesaf, gan fynd i'r afael â materion dybryd fel twf economaidd, cynaliadwyedd amgylcheddol, ac iechyd cymunedol.

Goblygiadau Ariannol – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

## Pennod 6: Rheoleiddio

## Argymhelliad 5 y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi beth yw ei chynlluniau i annog ffermwyr nad ydynt yn ymgysylltu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i wella iechyd eu pridd. Fel rhan o hyn, dylai fanylu ar ei chynlluniau ar gyfer rheoleiddio, gan gynnwys rhoi GAEC 4 a 5 ar sail statudol.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) 4 a 5 yn berthnasol i'r rhai a fydd yn hawlio Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r SFS.

Roedd adolygiad y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2025 yn ystyried rôl pridd a rheoli pridd ar gyfer yr holl dir amaethyddol yng Nghymru boed yn SFS, BPS neu ddim mewn cynllun.

Nododd yr adolygiad fod diffyg diogelwch deddfwriaethol ar gyfer priddoedd yng Nghymru, sy'n wahanol i'r sefyllfa mewn rhannau eraill o'r DU, ac argymhellodd fesurau i leihau'r risg o golli pridd i'r amgylchedd. Bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu'n llawn.

- Argymhelliad 6 (tymor byr): Cynnwys gofynion yn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol i ddiogelu rhag colli pridd i'r amgylchedd, gan efelychu o bosibl gofynion GAEC Trawsgydymffurfio.
- Argymhelliad 7 (tymor canolig): Ystyried effaith tyfu cnydau risg uwch ar golledion pridd posibl i'r amgylchedd a thechnegau lliniaru effeithiol fel lleiniau clustogi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd Comisiwn y Gyfraith i adrodd ar symleiddio a moderneiddio cyfraith amaethyddol yng Nghymru. Lansiwyd y prosiect yn ffurfiol ar 16 Ebrill 2024. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cwrdd â rhanddeiliaid a swyddogion polisi i gynnal ei ddadansoddiad o gyfraith sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Disgwylir iddo gael ei gyhoeddi cyn diwedd 2025. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith: Cyfraith Amaethyddol yng Nghymru - Comisiwn y Gyfraith

Goblygiadau Ariannol – bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau presennol.

## Casgliad 5

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n union pa safonau GAEC fydd yn berthnasol i hawlwyr yr SFS.

Ymateb: Derbyn

Yn ogystal â'r ymateb i Argymhelliad 5, bydd y rheolau sy'n disodli Trawsgydymffurfio yn cael eu nodi yn y Cod Cyffredinol. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun [HTML] | LLYW. Mae CYMRU yn cynnig rhagor o wybodaeth.

Goblygiadau Ariannol – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

## Pennod 7: Targedau

### Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r canllawiau ynghylch iechyd pridd. Fel rhan o hyn, dylent ystyried creu safon ofynnol wirfoddol ar gyfer iechyd pridd y byddent wedyn yn ei defnyddio i fesur cynnydd, gyda'r posibilrwydd y gallai'r safon wirfoddol hon ddod yn safon ofynnol statudol os na chyflawnir cynnydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dangosydd iechyd pridd Rheoli Tir Cynaliadwy (SLM) ar gyfer adrodd o dan y Ddeddf Amaethyddiaeth. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i fesur cynnydd tuag at gyflawni SLM a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Ni fydd y dangosydd iechyd pridd SLM yn creu isafswm safon ofynnol wirfoddol ar gyfer iechyd pridd. Bydd dangosyddion a thargedau'n cael eu gosod gerbron y Senedd erbyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd dangosyddion yn cael eu datblygu ar gyfer iechyd pridd a bydd effeithlonrwydd a'r angen am y targedau yn cael eu hadolygu'n gyson. O ystyried yr amrywiad gofodol mewn mathau o bridd a'u hymateb i'r hinsawdd a defnydd tir, mae Llywodraeth Cymru yn darparu dull haenog o iechyd pridd ac mae sawl dull drwy'r haen SFS gyffredinol sy'n hyrwyddo iechyd pridd; cyngor pwrpasol drwy Cyswllt Ffermio (gweler yr ymateb i Gasgliad 2); gweithredoedd yr haen opsiynol ac offer cyfalaf; a'r Cod Cyffredinol a'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Er nad yw'n safon ofynnol gwirfoddol, bydd monitro parhaus ynghyd â dangosyddion SLM a dangosyddion lefel cynllun yn darparu darlun o gynnydd ar sail gweithgarwch i Lywodraeth Cymru adolygu ei dull gweithredu.

Bydd y graddau y mae'r dull hwn yn cyflawni rheolaeth gynaliadwy o briddoedd yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys a oes angen canllawiau pellach ynghylch iechyd priddoedd.

Goblygiadau Ariannol – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

## Pennod 8: Buddsoddiad Preifat a'r Farchnad Credyd Carbon Pridd

### Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, sicrhau bod cyngor o ansawdd uchel ar gael i ffermwyr sy'n archwilio'r farchnad credyd carbon.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi i ddatblygu fframwaith cyllid natur ar gyfer Cymru. Mae rhaglen Safonau Buddsoddi Natur y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI) yn sefydlu safonau ar gyfer marchnadoedd natur ag integriti uchel. Mae ein Hegwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy yn nodi egwyddorion allweddol ar gyfer marchnadoedd natur effeithiol a chyfrifol yng Nghymru, megis ymgysylltu â'r gymuned.

Goblygiadau Ariannol – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.

### Casgliad 6.

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu'r dirwedd buddsoddi breifat, gyda'r bwriad o archwilio rhinweddau cymharol symud o gredydau carbon i gadwyni gwerth.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rhaid i ymagwedd Llywodraeth Cymru at gyllid natur / marchnadoedd natur fod yn gydnaws â gwaith arall ledled y DU a dylai hefyd gyd-fynd â safonau rhyngwladol.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi i ddatblygu strategaeth cyllid natur ar gyfer Cymru, gan ddysgu o'r dirwedd fuddsoddi breifat bresennol. Mae hyn yn cynnwys nodi enghreifftiau newydd, effeithiol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth o arfer da ac adeiladu capasiti o'r DU a thu hwnt, megis:

- Cynhaliodd Rhwydwaith Gwybodaeth Ecosystemau (EKN) (gyda chefnogaeth gan CNC a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol) ddigwyddiad "Cyllido Amgylchedd i Gymru" fis Hydref diwethaf a ddaeth â dros 100 o arweinwyr ynghyd o dirfeddianwyr, rheoleiddwyr, busnesau, buddsoddwyr a banciau.

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i rhanddeiliaid wedi ymweld â 2 brosiect yn Lloegr i ddysgu o'r dulliau a gymerwyd yno mewn perthynas â chyfleoedd yn y farchnad.

Goblygiadau Ariannol – caiff y gwaith hwn ei wneud o fewn y cyllidebau presennol.